Partneriaeth Pensiwn Cymru

Cyd-bwyllgor Llywodraethu – Adolygiad Ch2 2026

22 Medi 2026

Cyflwynir gan James Zealander

Rhaglen

03 Diweddariad Corfforaethol

04 Diweddariad Cydymffurfiaeth

06 Trosolwg Perthynas

07 Gwerthoedd yr Is-gronfeydd

08 Asedau Dan Reolaeth a Chanran Perchnogaeth Is-gronfeydd

09 Ciplun o'r Gronfa – Ecwitis

10 Ciplun o'r Gronfa – Incwm Sefydlog

11 Mentrau

11 Diweddariadau'r Farchnad

12 Goruchwylio – Monitro Trydydd Parti

13 Amserlen Cyfarfodydd / Ymgysylltu

Diweddariad Corfforaethol

Wrth i ni barhau i weithio tuag at ein gweledigaeth i fod y prif ddarparwr datrysiadau gwasanaethu asedau ar gyfer sefydliadau ariannol, gan helpu cleientiaid i strwythuro, gweithredu a thyfu trwy ein harbenigedd, arloesedd a digideiddio, rydym yn falch o rannu'r penodiadau isod ar lefel arweinyddiaeth strategol, sy'n hanfodol i gryfhau galluoedd ein cynnyrch a'n gallu i gyflawni ein blaenoriaethau.

Bydd **James Allis** yn ymgymryd â'r rôl Pennaeth Rheoli Cynnyrch RFS yn ychwanegol at ei rôl bresennol fel Pennaeth Gwlad – Iwerddon.

Mae **Rachel Wheeler** wedi'i phenodi'n Bennaeth Datrysiadau Strategol a bydd yn arwain swyddogaeth Datrysiadau Strategol yn fyd-eang (mae hon yn swyddogaeth newydd sbon). Gan weithio'n agos gyda Datblygu Busnes a Phenaethiaid Gwledydd, bydd y swyddogaeth newydd yn adnabod, yn siapio ac yn darparu cyfleoedd effaith uchel i Waystone gyda ffocws penodol ar strwythuro atebion ar gyfer cleientiaid strategol a dyfnhau perthnasoedd â chleientiaid, gan ganolbwyntio'n bennaf ar drosglwyddo busnes o ManCos ac ACDs mewnol.

Bydd **Nick Wheeler** yn camu i rôl y Prif Swyddog Gweithrediadau ar gyfer RFS i yrru trawsnewid gweithredol a'n hagenda newid. Bydd yn goruchwylio fframwaith gweithredol y cwmni ar gyfer ACD y DU, ManCos Iwerddon a Lwcsembwrg a'n Canolfannau Gallu Byd-eang ym Mumbai a Cashel ar gyfer gweithrediadau RFS.

Bydd **Nigel Pasea** yn ymgymryd â'r rôl Pennaeth Datrysiadau Cydymffurfiaeth Byd-eang yn ogystal â'i rôl fel Pennaeth Gwlad – y Dwyrain Canol.

Mae **Richard Larnder** wedi ymuno â Waystone fel ein Prif Swyddog Ariannol newydd ym mis Gorffennaf.

Mae Richard yn arweinydd cyllid profiadol iawn gyda hanes cryf ar draws sefydliadau gwasanaethau ariannol cymhleth, rhyngwladol. Daw ag arbenigedd dwfn mewn strategaeth ariannol, llywodraethu, rheoli cyfalaf ac M&A, gyda ffocws penodol ar adeiladu swyddogaethau cyllid graddadwy sy'n cefnogi twf cynaliadwy.

Diweddariad Cydymffurfiaeth

Mae'r isod yn manylu ar ddatblygiadau cydymffurfiaeth rheoleiddiol diweddar sy'n berthnasol i WMUK. Cesglir eitemau dan sylw o amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys papurau ymgynghori, datganiadau i'r wasg ac areithiau.

Newidiadau a Diweddariadau Rheoleiddiol Allweddol (Ch2 2026)

Cyflwynodd y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) newidiadau mawr a ddaeth i rym yn ystod ail chwarter 2026. Mae hyn yn cynnwys cynnydd pensiwn o 3.8% ac ailbrisio CARE, diweddaru bandiau cyfraniadau i adlewyrchu'r cynnydd hwnnw, a rheoliadau "Mynediad a Thegwch" nodedig sy'n ehangu cymhwysedd i'r cynllun a buddion goroeswyr.

Mae diweddariadau allweddol i'r CPLIL yn Ch2 2026 yn cynnwys:

- Cynyddu ac Ailbrisio Pensiynau: Gan ddod i rym ar 6 Ebrill 2026, cynyddodd cyfrifon pensiwn actif, pensiynau gohiriedig, a phensiynau sy'n cael eu talu, 3.8% yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI).
- Bandiau Cyfraniadau wedi'u diweddaru: Yn dilyn y cynnydd o 3.8%, daeth bandiau cyflog diwygiedig - sy'n pennu'r cyfraddau cyfraniad 5.5% i 12.5% - i rym o 1 Ebrill, 2026.
- Buddion Goroeswyr Tecach: O 1 Ebrill, 2026, mae pensiynau goroeswyr yn gyfartal, gan ddileu gwahaniaethau ar sail rhyw ac ôl-ddyddio rhai cyfrifiadau ar gyfer partneriaid cymwys.
- Rheolau Gwyliau Newydd: Mae absenoldebau [awdurdodedig] heb dâl sy'n para llai na 15 diwrnod yn cyfrif yn awtomatig fel rhai pensiynadwy. Ar gyfer seibiannau hirach, mae "Trefniadau Pensiwn Ychwanegol Cymwys" (QAPAs) yn cael eu cyflwyno i brynu pensiwn a gollwyd yn ôl.
- Mynediad ar gyfer Aelodau Etholedig: Yn Lloegr, estynnwyd mynediad i'r CPLIL i feiri a chynghorwyr, gyda darpariaethau'r cynllun yn dod i rym ar 11 Mai, 2026.
- Diwygiadau "Fit for the Future": Cyhoeddodd y llywodraeth ymatebion a rheoliadau ffurfiol sy'n amlinellu safonau pŵlio a llywodraethu gofynnol ar draws cronfeydd i wella canlyniadau buddsoddi hirdymor.

Daeth y Ddeddf Cynlluniau Pensiwn nodedig yn gyfraith yn ddiweddar, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau brofi Gwerth am Arian (VFM), fel bod modd cydgrynhoi potiau pensiwn segur bach, a gwthio am "megafunds" mwy. Ochr yn ochr â hyn, mae newidiadau rheoleiddio mawr yn targedu hyblygrwydd gwarged Buddion Diffiniedig (DB), dyddiadau cau llym y dangosfwrdd, a diogelwch defnyddwyr SIPP cryfach.

Diweddariadau am y Ddeddf Cynlluniau Pensiwn a Buddion Diffiniedig (DB)

- Rheolau Cyllid Dros Ben: Mae'r llywodraeth wedi cyhoeddi rheoliadau drafft sy'n galluogi cyflogwyr noddi i gael mynediad hyblyg at gyllid dros ben mewn cynlluniau DB. Disgwylir i'r ddeddfwriaeth lawn ddod i rym ar 6 Ebrill, 2027. Mae hyn yn caniatáu rhannu cyllid dros ben, gan amddiffyn buddiannau aelodau a chynnal lefelau cyllido cryf.
- Gwerth am Arian (VFM): Mae'r fframwaith VFM newydd yn ei gwneud yn ofynnol i reolwyr cynllun ac ymddiriedolwyr gynnig opsiynau incwm ymddeol clir a phrofi yn gyson bod eu cronfa yn perfformio'n dda i gynilwyr.

Cyfraniadau Diffiniedig (DC) a Phrif Ymddiriedolaethau

- Yr Ymdrech i Gydgrynhoi: Mae prif ymddiriedolaethau a chynlluniau DC yn wynebu pwysau enfawr i gydgrynhoi er mwyn cyflawni 'scale'. Mae'r Rheoleiddiwr Pensiynau (TPR) wedi nodi'n glir bod rhaid i gynlluniau llai naill ai fodloni safonau deddfwriaethol uwch neu gydgrynhoi mewn cronfeydd mwy a all gynnig gwell llywodraethiant a gwerth.

- Canllawiau Deallusrwydd Artiffisial: Mae'r TPR wedi egluro disgwyliadau ar gyfer y defnydd cyfrifol a diogel o AI o fewn systemau pensiwn gweithle er mwyn diogelu data aelodau.

Dangosfyrddau Pensiwn a Pharodrwydd Data

- Oedi wrth Weithredu: Ymestynnodd y Rhaglen Dangosfyrddau Pensiynau (PDP) y dyddiad cau gweithredu gorfodol i 1 Mawrth, 2027. Fodd bynnag, anogir cynlluniau i weithredu ar unwaith i baratoi eu data, a dylai partïon anelu i gefnogi adrodd awtomataidd dyddiol erbyn diwedd 2026.

Diogelu a Rhoi Cyngor i Ddefnyddwyr

- Diwydrwydd Dyladwy SIPP: Mae'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) yn ymgynghori ar reolau newydd (CP26/20) ar gyfer Pensiynau Personol Hunan-Fuddsoddi (SIPPs) i gryfhau diwydrwydd dyladwy o ran twyll a gwella amddiffyniad ar gyfer asedau sy'n defnyddio ymddiriedolwyr anawdurdodedig.
- Torri i lawr ar Sgamiau: Mae'r TPR yn annog ymddiriedolwyr a chynilwyr i barhau i fod yn hynod wyliadwrus rhag twyll dynwared, problem gynyddol sy'n targedu cronfeydd ymddeol.

Treth Etifeddiant a Phensiynau'r Wladwriaeth

- Potiau heb eu defnyddio: Mae Deddf Cyllid 2026 yn dod â'r rhan fwyaf o botiau pensiwn heb eu defnyddio a buddion marwolaeth penodol i'r sgôp ar gyfer treth etifeddiant, gan ddod i rym ar gyfer marwolaethau ar neu ar ôl 6 Ebrill, 2027.
- Oedran Pensiwn y Wladwriaeth: Ar hyn o bryd mae'r llywodraeth yn cynnal ei thrydydd adolygiad oedran Pensiwn y Wladwriaeth, gan ystyried y data disgwyliad oes a demograffig diweddaraf.

Trosolwg Perthynas

Cleient: Partneriaeth Pensiwn Cymru

Dyddiad Dechrau'r Contract: Rhagfyr 2017

Adnewyddu'r Contract: Rhagfyr 2024

Contract yn dod i ben: Rhagfyr 2029 (gyda darpariaeth am estyniad pellach o 2 flynedd)

Hyd y Berthynas: 8.5 mlynedd

Asedau Dan Reolaeth (fel ar 30 Mehefin 2026): £16,302,170,374

Cyfres o Gynnyrch: ACS – UK

Ystod o Is-gronfeydd Partneriaeth Pensiwn Cymru

Ecwitis

Cronfa Twf Byd-eang PPC WS

Cronfa Ecwitis Cyfleoedd Byd-eang PPC WS

Cronfa Cyfleoedd y DU PP Cymru WS

Cronfa Ecwiti Marchnadoedd Datblygol PP Cymru WS

Cronfa Ecwiti Actif Cynaliadwy PP Cymru WS

Incwm Sefydlog

Cronfa Credyd Aml-ased PP Cymru WS

Cronfa Credyd Byd-eang PP Cymru WS

Cronfa Bondiau Llywodraeth Byd-eang PP Cymru WS

Cronfa Bondiau Enillion Absoliwt PP Cymru WS

Cronfa Credyd Sterling PP Cymru WS

Gwerthoedd Is-Gronfeydd PPC*

Cronfa	**Asedau dan Reolaeth (£)***
Ecwitis	
Cronfa Twf Byd-eang PPC WS	£4,272,307,438
Cronfa Ecwitis Cyfleoedd Byd-eang PPC WS	£3,957,090,215
Cronfa Cyfleoedd y DU PP Cymru WS	£962,809,075
Cronfa Ecwiti Marchnadoedd Datblygol PP Cymru WS	£450,482,210
Cronfa Ecwiti Actif Cynaliadwy PP Cymru WS	£1,961,410,581
Incwm Sefydlog	
Cronfa Credyd Aml-ased PP Cymru WS	£998,744,473
Cronfa Credyd Byd-eang PP Cymru WS	£1,368,112,884
Cronfa Bondiau Llywodraeth Byd-eang PP Cymru WS	£520,362,255
Cronfa Bondiau Enillion Absoliwt PP Cymru WS	£821,486,839
Cronfa Credyd Sterling PP Cymru WS	£989,364,403
Cyfanswm	**£16,302,170,374**

* Fel ar 30 Mehefin 2026


Gwerthoedd a Chanran Perchnogaeth Is-gronfeydd PPC *

Enw'r gronfa	Gwynedd	Powys	Clwyd	Abertawe	Caerdydd	Torfaen	RCT	Dyfed	Cyfanswm yr Is-gronfa
Ecwitis									
Cronfa Twf Byd-eang PPC WS	£443,967,894 (10%)	£91,292,086 (2%)			£85,968,372 (2%)		£2,237,196,665 (53%)	£1,413,882,421 (33%)	£4,272,307,438 (100%)
Cronfa Cyfleoedd Byd-eang PPC WS	£454,553,846 (11%)			£1,200,558,433 (30%)	£746,259,744 (19%)	£901,419,739 (23%)	£654,298,453 (17%)		£3,957,090,215 (100%)
Cronfa Cyfleoedd y DU PPC WS					£198,950,603 (21%)	£763,858,472 (79%)			£962,809,075 (100%)
Cronfa Ecwiti Marchnadoedd Datblygol PPC WS	£103,992,172 (23%)	£26,514,126 (6%)			£199,984,945 (44%)	£119,990,967 (27%)			£450,482,210 (100%)
Cronfa Ecwiti Actif Cynaliadwy PPC WS	£411,924,076 (21%)	£89,902,156 (5%)	£463,404,817 (24%)	£206,441,243 (11%)	£184,603,422 (9%)	£221,548,030 (11%)	£147,692,682 (7%)	£235,894,156 (12%)	£1,961,410,581 (100%)
Incwm Sefydlog									
Cronfa Credyd Aml-Asedau PPC WS	£266,971,039 (27%)	£39,703,634 (4%)	£430,076,571 (43%)	£78,616,131 (8%)	£183,377,098 (18%)				£998,744,473 (100%)
Cronfa Credyd Byd-eang PPC WS	£353,905,984 (26%)	£18,245,317 (1%)		£158,257,996 (12%)	£154,858,127 (11%)	£282,401,686 (21%)		£400,443,774 (29%)	£1,368,112,884 (100%)
Cronfa Bondiau Llywodraeth Byd-eang PPC WS					£249,475,430 (48%)	£270,886,825 (52%)			£520,362,255 (100%)
Cronfa Bond Enillion Absoliwt PPC WS	£564,271,444 (68%)	£19,649,316 (3%)		£237,566,079 (29%)					£821,486,839 (100%)
Cronfa Credyd Sterling PPC WS			£160,333,214 (16%)				£829,031,189 (84%)		£989,364,403 (100%)
Cyfanswm yr Awdurdod Cyfansoddol	£2,599,586,455	£285,306,635	£1,053,814,602	£1,881,439,882	£2,003,477,741	£2,560,105,719	£3,868,218,989	£2,050,220,351	**£16,302,170,374**


*Fel ar 30 Mehefin 2026

Ciplun o'r Gronfa* - Ecwitis


Twf Byd-eang




Cyfleoedd Byd-eang




Ecwiti Actif Cynaliadwy



Marchnadoedd Datblygol




Cyfleoedd y DU




Ciplun o'r Gronfa* - Incwm Sefydlog


Credyd Sterling




Credyd Byd-eang




Credyd Aml-Ased



Bond Llyw. Byd-eang



Bond Enillion Absoliwt



Mentrau

Cyflawniadau a Diweddariadau Allweddol

Polisi Gwahardd i'w ychwanegu at y Prosbectws a'r IMD gyda Russell Investments

Diweddariadau'r Farchnad

	Gweithgaredd	Statws	Sylwadau
Rwsia / Wcráin	Effaith ar is-gronfeydd ACS sy'n dal cwmnïau Rwsiaidd	Yn parhau	Mae WMUK yn parhau i fonitro'r sefyllfa a bydd yn rhoi gwybod i'r Awdurdodau Cyfansoddol am unrhyw ddatblygiadau. Mae Pwyllgor Prisio Gwerth Teg WMUK yn trafod hyn yn rheolaidd, ac mae asedau'n dal i gael eu prisio yn unol â hynny. Nid oes unrhyw ddaliadau Rwsiaidd yn unrhyw un o gronfeydd y Bartneriaeth.
	Gweithgaredd	**Statws**	**Sylwadau**
Y Dwyrain Canol	Effaith ar is-gronfeydd ACS sy'n dal cwmnïau Israelaidd.	Yn parhau	Ar hyn o bryd mae 4 o warantau yn cael eu dal mewn cwmnïau uniongyrchol o Israel ar draws dwy is-gronfa; Cronfa Cyfleoedd Byd-eang – 3 cwmni gydag amlygiad o 0.30% ar draws cyfanswm yr asedau dan reolaeth. Cronfa Twf Byd-eang – 1 cwmni gydag amlygiad o 0.02% ar draws cyfanswm AUM yr Is-gronfa. BANC HAPOALIM BANK LEUMI ELBIT SYSTEMS LTD SHUFERSAL LTD Un Bond yn cael ei ddal yn y Gronfa Bondiau Llywodraeth Byd-eang – Y daliad yn un de minims Cyfanswm gwerth o tua £12.58m. Mae'r sefyllfa wrthi'n cael ei monitro fel rhan o broses trosolwg BAU. • Ffigurau o ddiwedd 30 Mehefin 2026.

Goruchwylio – Monitro Trydydd Parti

Cynllun 2026

Darparwr Trydydd Parti	Cyfnod Adrodd	Is-gronfa	Lleoliad	Statws
Northern Trust				
Asiantaeth Trosglwyddo yn cynnwys Adolygu Arian Cleientiaid	2026	Pob un	Ar safle, Llundain – Mai 2026	Cynllunio – Cylch Gorchwyl gyda Northern Trust. Gwaith maes i'w gwblhau 7 Gorffennaf 2026 yn Llundain
Gweinyddiaeth y Gronfa ac Adrodd Ariannol	2026	Pob un	Ar safle, Llundain – Tachwedd 2026	Gwaith maes i'w gwblhau ar 10 ac 11 Tachwedd yn Llundain
Dadansoddiad Pris	2026	Pob un	Ar safle, Limerick – 2026	Heb ddechrau
Holiadur 'Parti' Arall	2026	Pob un	Holiadur – Mawrth 2026	Wedi cyhoeddi'r holiadur
Holiadur Diogelwch TG	2026	Pob un	Holiadur – Medi 2026	Heb ddechrau
Diwydrwydd Dyladwy Blynyddol	2026	Pob un	Holiadur – Dyddiad i'w gytuno	Heb ddechrau
Russell Investments				
Diwydrwydd Dyladwy Blynyddol	2026	Pob un	Porth – mis Mawrth 2026	Holiadur wedi'i gwblhau a'i ddychwelyd i WMUK. Ni chodwyd unrhyw bryderon yn dilyn yr ymatebion. Cyfarfod â'r tîm Buddsoddi i'w drefnu ar gyfer Ch3/Ch4 - 2026.

Amserlen Cyfarfodydd / Ymgysylltu

	Amlder	Amcanion
Adolygiad Gweithredol	Pob chwe mis	– Sicrhau aliniad strategol – Adolygiad ar y cyd o'r busnes a nodau, blaenoriaethau ac amcanion strategol
Cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor Llywodraethu	Chwarterol	– Metrigau allweddol – Materion perthnasol – Cyflawni'n strategol
Cyfarfodydd y Gweithgor Swyddogion	Chwarterol	– Adnabod a chyflawni cyfleoedd i wella ac ehangu'r berthynas – Darparu diweddariad ar brosiectau neu faterion sy'n agored – Adolygiad DPA Misol (Darperir y data yn chwarterol)
Diweddariad yr Awdurdod Lletyol	Pob pythefnos	– Awdurdod Lletyol Rheolaidd – WMUK i drafod beth sy'n bosib i'w gyflawni, a diweddariadau busnes
Cyfarfodydd y Pwyllgor Pensiwn	Blynyddol	– Diweddariad cyffredinol ar yr ACS a'r mentrau sydd ar y gweill
Ymgysylltu â Chadeiryddion y Bwrdd Pensiwn	Pob chwe mis	– Diweddariad cyffredinol ar yr ACS a'r mentrau sydd ar y gweill
Diwrnodau Ymgysylltu â Rheolwyr	Blynyddol	– Diwrnod agored i gael cyflwyniadau ar strategaeth a pherfformiad (gyda IM)

Presenoldeb y chwarter hwn:

- Gweithgor Swyddogion 9 Mehefin 2026
- Cyd-bwyllgor Llywodraethu 15 Gorffennaf 2026
- Yr Awdurdod Lletyol bob pythefnos

Presenoldeb y chwarter nesaf:

- Gweithgor Swyddogion 21 Gorffennaf 2026 - Rhithwir
- Cyd-bwyllgor Llywodraethu 22 Medi 2026 - Neuadd y Sir, Caerfyrddin

Diolch

Tîm Perthnasau

Enw: James Zealander
Rôl: Uwch Reolwr Perthnasau
Rhif: +44 (0)7522 348 474
E-bost: James.Zealander@waystone.com

Heidi Robinson
Rheolwr Perthnasau

+44 (0) 7843 804917
E-bost: Heidi.Robinson@waystone.com

Enw: Richard Thornton
Rôl: Pennaeth Rheoli Perthnasau - Perchnogion Asedau
Rhif: +44 (0) 7765 220277
E-bost: Richard.Thornton@waystone.com

Cyswllt Prif Swyddog

Enw: Karl Midl
Rôl: Pen Swyddog y Wlad, y DU a Phrif Swyddog Gweithredol
Rhif: +44 (0)7951 266225
E-bost: karl.midl@waystone.com